

Targed	Sut rydych chi wedi gweithio ar hwn	Ceir enghraifft
* Gwella eich sgiliau cyfeirnod, e.e. wrth gyfeirnod dyfyniadau; cyfenw awdur yn unig yn y testun	Rwyf wedi darllen trwyddo llawrlyfr cyfeirnod y prifysgol a dwi wedi defnyddio'r llyfr pan yn ysgrifennu yr aseiniad.	Trwyddo'r holl aseiniad
*Gwella strwythur a llif eich gwaith drwy gynnwys llai o ddyfynodau hir yn y testun ac aralleirio dyfynodau hir o fewn eich sylwadau.	Rwyf wedi ceisio defnyddio ddyfynodau llai	Trwyddo'r holl aseiniad

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfiriwch yn feiriadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwyr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau pendol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol)

Yn ystod yr aseiniad yma byddaf yn adfyfrio'n feiriadol ar sut byddaf yn cefnogi un dysgwr unigol sydd yn galaru yn ystod cyfnod o drosglwyddo. Ar gyfer yr aseiniad yma rwyf wedi dewis disgybl o'r enw Anwen (ffug enw oherwydd rhesymau diogelu (BERA,2018)) sydd yn 5 mlwydd oed, mae Anwen yn ddisgybl ym mlwyddyn 1. Mae Anwen yn byw gyda Mam, Dad a'i frawd bach Sam. Mae Mam-gu a Thad-cu yn pigo Anwen i fynnu o ysgol yn aml a gallwn weld fod perthynas agos iawn rhyngddo Anwen a'i Mam-gu a Thad-cu. Gallwn weld fod Anwen yn agos iawn efo'r holl deulu. Mae Anwen newydd ddod nôl i'r ysgol ar ôl hanner tymor mis Mai felly un tymor yn unig sydd gydag Anwen ar ôl yn flwyddyn 1.

Cyn hanner tymor roedd Anwen yn ddisgybl a oedd yn ymgysylltu ym mhob agwedd o fywyd ysgol ac yn dod a llawenydd i bawb yn flwyddyn 1 (mae proffil un tudalen Anwen i'w weld yn rhan 2). Ers i Anwen dychwelyd i flwyddyn 1 yn fis mai nid ydy Anwen i weld fel yr un plentyn, mae Anwen i weld wedi tynnu'n ôl, mae hi'n dueddol o fod yn dawel a threulio lawer

o amser ar ben eu hun. Mae Anwen i weld yn wahanol gan mae yn mynd trwyddo broses newidiol yn ystod blentyndod sef y faith fod Anwen wedi colli'i Fam-gu yn sydyn dros wyliau hanner tymor. Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau dirdynol sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'n byw ynddo (Hyb ACE Cymru, 2022). Golygaf hyn fod Anwen yn mynd trwyddo drosglwyddiad fertigol sef colled, mae rhieni Anwen yn poeni fod Anwen ddim yn delio efo'r golled a fydd Anwen yn gweld y trosglwyddiad i fynnu i flwyddyn 2 yn anodd gan fod Anwen yn mynd trwyddo'r broses galaru. Trosglwyddiadau yw'r symudiadau mae pobl ifanc yn ei wneud yn ystod addysg sy'n cynnwys yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn ystod y newid o un amgylchedd i'r llall (Harper, 2015). Er mwyn cefnogi Anwen trwy'r cyfnod yma byddwn yn cyflwyno sesiynau penodol i gefnogi Anwen i ddeall pam mae hi yn teimlo fel hyn, i ddeall beth yw galar, i siarad amdano Fam-gu ac i siarad am sut gallwn helpu Anwen delio a'r holl emosiynau. Bydd y sesiynau yn cael i gynnal gan ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) yr ysgol.

Rhwysr dysgu yw unrhyw beth sy'n atal dysgwr rhag ymgysylltu'n iawn yn y broses ddysgu. I berson, neu hyd yn oed grŵp o bobl, y mae rhwystrau dysgu yn effeithio arnynt yn teimlo'n rhwystredig neu'n anfodlon, ac ni allant gyflawni eu nodau dysgu (Green, 2023). Mae wyth rhwystr i ddysgu: gwybyddol, corfforol, emosiynol, cymdeithasol, iechyd meddwl, seiliedig ar iaith, diwylliannol ac amgylcheddol. Fel mae Pennacchia, Jones, ac Aldridge yn ei ddisgrifio, "mae rhwystrau yn rhyngberthynol ac mae unigolion yn aml yn profi cyfuniad cymhleth ohonynt" (Pennacchia, Jones, ac Aldridge, 2018). Dwi'n cytuno efo Pennacchia, Jones ac Aldridge mae llawer o bobl ifanc yn dioddef o fwy nag un rhwystr dysgu gan mae'r rhwystrau yn gallu adeiladu lan o rwystrau arall.

Mae profiadau rydym yn cael yn ystod blentyndod yn effeithio ar yr adeiladwaith o'r ymennydd datblygol, mae angen sylfaen da ar yr ymennydd er mwyn cefnogi datblygiad dyfodol fel perthynas postif rhwng plant ifanc a'i gofalwyr (Alberta Family Wellness, 2013). Mae Perry a Rosenfelt yn gwahaniaethu rhwng ein hymatebion i drawma a galar. Maen nhw'n credu y gall y llwybrau niwrolegol a ffurfiwyd o'r ddau brofiad gwahanol hyn arwain at ddau emosiwn gwahanol - tristwch mewn galar a phryder mewn trawma (Perry a Rosenfelt, 2013). Mae hyn yn dangos fod pethau yn fywyd o oedran ifanc yn cael effaith ar ddatblygiad yn unigolyn, mae'r profiadau yma hefyd yn gallu effeithio iechyd yr unigolyn. Canfu adolygiad fod oedolion a oedd wedi dioddef o bedwar neu fwy mathau o ACEs yn 52% yn fwy tebygol o gael clefyd y siwgr na'r rhai na nododd unrhyw ACEs (GIG Cymru, 2020). Yn ôl Llywodraeth Cymru mae 47% o boblogaeth Cymru wedi sôn eu bod wedi cael o leiaf un neu fwy profiad niweidiol yn ystod blentyndod (GIG Cymru, 2016). Mae'r data yma yn dangos fod ACEs yn gyffredin iawn, mae'r faith fod ACEs yn gyffredin yn golygu dyle athrawon ac aelodau staff ysgol fod yn ymwybodol o ACEs a dyle fod athrawon yn ystyried ACEs wrth

asesu a chynllunio . Gan fod Anwen wedi colli' Fam-gu mae Anwen yn dawel ac i weld wedi tynnu nôl o fywyd ysgol dydy Anwen ddim eisiau chwarae a chymdeithasu cymaint ag yn treulio amser yn y babell dawel. Rwy'n credu fod yr amser tawel yn y babell yn bwysig i Anwen gan mae yn rhoi siawns iddi hi ddellio efo ei emosiynau.

Mae llawer o astudiaethau'n dangos y ffyrdd dwys y gall colled greu hafoc ar berson ifanc a all orlifo i'r ysgol a thu hwnt. Gall galar gyfrannu at ymddygiadau allanol, megis ymddygiad ymosodol, neu ganlyniadau mewnol fel iselder a hunan-barch isel (Alender, 2015). Awgryma hyn fod angen cymorth arno Anwen mor gynted â phosib er mwyn iddi hi dderbyn y cymorth sydd angen a bod Anwen yn gallu delio efo'r galar. Bydd hyn yn gwneud y trosglwyddiad lan i flwyddyn 2 yn haws i Anwen gan fydd gan Anwen fwy o ddealltwriaeth am y ffordd mae hi yn teimlo a beth mae hi yn mynd trwyddo. Noda Sue Trace Lawrence fod poen yn rhedeg yn ddwfn a dydy o ddim yn gadael y plentyn pan maen nhw yn cerdded i mewn i'r adeilad ysgol. Nid yw drysau galar yn cau mor hawdd â rhai'r dosbarth, nid yw'r galar yn aros tu allan i ysgol nes i'r gloch canu am ddiwedd y dydd. Mae galar yn cymryd sedd drws nesaf i'r plentyn sydd yn brifo (Lawrence,2020. Tud 2). Fodd bynnag mae Bowlby yn anghytuno, yn ôl Bowlby nid yw'n anarferol i ferch neu fachgen bach grio un funud, ac yna rhedeg i ffwrdd gan chwerthin y funud nesaf. Gallwn briodoli'r ymddygiad hwn i gyfnodau canolbwyntio byr (Bowlby, 1960). Yn fy marn i ddwi yn cytuno efo'r ddau ohonyn nhw mae galar o hyd o'i gwmpas ond mae o yn hynod o iawn i unigolyn fod yn hapus a dal i chwarae pan maent yn galaru, mae pob plentyn yn wahanol felly bydd pob plentyn yn delio efo galar yn wahanol, dydy unigolion ddim yn anghofio amdano'r galar maent yn dysgu i fyw efo'r galar.

Os na fydd Anwen yn cael y cymorth sydd angen arani fydd yn effeithio ar gynnydd a datblygiad Anwen. Mae Dyregov (2004) yn dadlau fod plant mewn profedigaeth a'r rhai a oedd yn agored i drawma yn fwy absennol o'r ysgol nag eraill, ar gyfartaledd. Canfu'r adolygiad hefyd y gall perfformiad ysgolion ddirywio yn dilyn y digwyddiad, yn enwedig mewn pynciau ysgol sy'n galw am lefel uchel o sylw. Er nad yw'r rhesymau dros y dirywiad hwn yn gwbl hysbys, mae'r ffactorau tebygol yn cynnwys colli cymhelliant, dargyfeirio sylw at ddeunydd ymwthiol a phrosesu gwybyddol, a gostyngiad mewn cyflymder gwybyddol oherwydd iselder. Mae diffyg cefnogaeth ganfyddedig gan rieni, cyd-ddisgyblion ac athrawon hefyd wedi'i gysylltu â mwy o straen wedi trawma a chyrhaeddiad is yn yr ysgol (Dyregov, 2004). Cytûn Cacciatore, mae safbwyntiau'n newid ar ôl trawma neu golled, ac mae'r pethau bach yn mynd yn ddibwys (Cacciatore, 2017). Gall myfyrwyr fod heb gymhelliant, yn osgoi astudio a rhoi ychydig o ymdrech ymlaen. Mae prifysgol Loughborough yn anghytûn mae tystiolaeth o effaith ar gyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol ddiffygiol (Prifysgol Loughborough,2011) Yn fy marn i gall hyn fod yn hollol wahanol ar gyfer pob unigolyn gan

mae pob unigolion yn delio efo pethau yn hollol wahanol, welais i ar fy mhrofiad dysgu fod unigolion yn delio efo pethau yn hollol wahanol does dim un disgybl yr un peth.

Mae dadansoddiad o ddata arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o iechyd meddwl ymhlith plant 5-16 oed yn awgrymu bod plant mewn profedigaeth tua un a hanner gwaith yn fwy tebygol na phlant eraill o gael diagnosis o 'unrhyw' anhwylder meddwl (Fauth et al, 2009). Mae hyn i gyd yn dangos y pwysigrwydd o gymorth yn ystod profedigaeth, mae'r teimladau ddim yn mynd i adael y plentyn ar ôl cwpwl o ddyddiau mae rhaid cael cymorth a chefnogaeth i ddellio efo beth sydd yn digwydd. Mae astudiaethau wedi awgrymu y gallai poen colled hyd yn oed gynyddu dros amser i blant (Schwarz & Perry, 1994).

Mae plant ifanc yn ysgol gynradd fel Anwen yn cael amser caled yn delio efo profedigaeth gan mae mwyafrif o blant heb glywed neu gael profiad o farwolaeth. Mae deall ystyr yn dibynnu ar alluoedd gwybyddol plentyn sy'n dibynnu ar oedran, profiad, a chyfnod datblygiadol (Stuber & Mesrkhani, 2001) Rhwng yr oedran o 5 a 7 mae plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o'r faith fod marwolaeth yn barhaol a bod y person sydd wedi marw ddim yn dod nôl. Mae plant yn dod yn fwy ymwybodol bod marwolaeth yn rhan anochel o fywyd sy'n digwydd i bob peth sydd yn fyw, o ganlyniad gall dod yn bryderus am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill (Child Berevment UK, 2019). Yn aml, marwolaeth nain neu daid yw cyfarfyddiad cyntaf plentyn neu berson ifanc â marwolaeth rhywun sy'n bwysig iddynt. Hyd at y pwynt hwn, nid yw rhai plant yn ymwybodol y bydd pobl yn eu bywyd yn marw a gall hyn fod yn sioc iddynt. Efallai eu bod wedi cael ymwybyddiaeth ar ryw lefel, ond hyd nes y bydd yn digwydd mewn gwirionedd, efallai na fyddant yn barod am y realiti (Child berevment UK, 2019). I blentyn fel Anwen mae marwolaeth yn rhywbeth hollol newydd sydd yn wneud y broses galaru yn fwy ofnus.

Er bod gan Anwen system cymorth dda mae Anwen dal i deimlo ar goll. Mae plant yn ddibrofiad ag ymlyniadau toredig, ac nid ydynt eto'n deall sut y bydd bywyd yn parhau heb wrthrych eu cariad. Wrth i ni dyfu ac aeddfedu, rydyn ni'n dod yn gyfarwydd â cholled yn ein bywydau, ac rydyn ni'n dysgu y byddwn ni'n goroesi (Lawrence, 2020) i berson ifanc, gall bwrw ymlaen â bywyd olygu amserlen gymdeithasol brysur fel ei ffordd o gau'r boen allan. Neu gallant dynnu'n ôl i'w hunain, gan wrthod cynigion o gymorth a bod yn gyffredinol yn anodd iawn cyfathrebu â nhw. Os yw hyn yn wir am berson ifanc yr ydych yn ei gefnogi, ceisiwch fod yn amyneddgar a pharhau i roi gwybod iddynt eich bod yn dal yno ar eu cyfer (Child bereavement UK, 2021). Mae Anwen yn blentyn sydd wedi tynnu nôl, dydy Anwen ddim yn gwrthod cymorth mae yn barod i weithio efo'r ELSA ond bydd Anwen yn datblygu yn amser eu hunain. Mae Anwen yn gofyn am Fam-gu weithiau a dal yn gobeithio bydd hi yn dod ar ddiwedd y dydd i gasglu hi.

Er mwyn helpu Anwen trwyddo'r cyfnod galaru byddaf yn cynnal sesiynau wythnosol efo ELSA yr ysgol. Ffocws rhan fwyaf o'i sesiynau fydd siarad a thrafod am alar a sôn am

Fam-gu Anwen, mae hyn yn cysylltu â gofynion y maes dysgu iechyd a lles yn Gwricwlwm i Gymru, un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yw: Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol (Llywodraeth Cymru,2019). Yn ystod y sesiynau bydd Anwen yn llenwi llyfr colled a chreu bocs atgofion er mwyn iddi hi brosesu'r profiad. Gan fod Anwen yn hoff iawn o'r celfyddydau mynegiannol bydd Anwen hefyd yn tynnu lawer o luniau yn ystod y sesiynau er mwyn mynegi ei theimladau a hefyd gallwn ddefnyddio'r lluniau i asesu cynnydd Anwen. Mae plant ifanc yn meddwl yn symbolaidd yn hytrach na defnyddio geiriau ysgrifenedig, mae tynnu lluniau yn helpu plant dod o hyd i'w eiriau mae ymarferion tynnu lluniau fel math o ddydd lyfr yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ysgafn a gallant gynnig cipolwg ar ofnau a chamsyniadau plentyn (Zotovitch,2020). Yn ôl theori gymdeithasol Vygotsky (1978) mae datblygiad dynol yn cael ei weld fel proses cyfryngu cymdeithasol lle mae plant yn dysgu sgiliau a gwybodaeth trwy gael sgysiau gyda phobl fwy gwybodus yn y gymdeithas (Vygotsky,1978). Yn fy marn i ddwi'n cytuno gyda hyn gan fod angen i blant weithiau sgwrsio efo person mwy gwybodus i ddysgu a deall pethau'n fwy, i Anwen mae hi eisiau clywed wrtho unigolyn fod hi'n iawn ac mae yn iawn i deimlo'r ffordd mae hi yn teimlo. Yn debyg i hyn credir Bandura fod modelau dylanwadol i blant fel ffrindiau, rhieni ac athrawon yn rhoi esiamplau o ymddygiad i arsylwi ac efelychu (Bandura a Walters, 1977). Mae plant yn dysgu sut i alaru trwy gopïo ymatebion yr oedolion o'u cwmpas, a dibynnant ar oedolion roi'r cymorth sydd ei angen arnynt yn eu galar (Child Berevement UK,2019). Mae hyn yn dangos fod hi'n bwysig i esbonio a dangos esiampl dda i Anwen wrth siarad/ mynd trwy'r proses galaru.

Yn ystod fy mhrofiad addysgu, des i ardraws plentyn a oedd wedi colli cefndir. Wnes I ddim cael y profiad o eistedd mewn ar un o'r sesiynau ond ces i'r cyfle i ddarllen trwyddo llyfr colled y plentyn, roedd darllen trwyddo'r llyfr yn brofiad da gan o ni heb ddod ar draws llyfr colled cyn y profiad addysgu hwn, y tudalen a oedd wedi sefyll allan i mi oedd y tudalen olaf sut dwi'n teimlo nawr, ar y tudalen hwn roedd y plentyn wedi trafod sut oedd y plentyn yn teimlo syth ar ôl y golled, sut mae'r plentyn yn teimlo nawr a sut mae'r plentyn wedi datblygu eu dealltwriaeth o beth mae'r plentyn wedi mynd trwyddo. Dangosodd y tudalen yma fod y llyfr yn effeithiol iawn gan roedd y plentyn wedi datblygu eu dealltwriaeth ac wedi dysgu sut i ddelio efo'r holl emosiynau.

Mae trosglwyddiad yn cyfeirio at y broses o newid a phrofiad pan fydd plant yn symud o un lleoliad i'r llall. Mae'r trosglwyddiad yn cwmpasu'r amser rhwng y pwyntiau o ymwybyddiaeth bod trawsnewidiad yn mynd i ddigwydd, i setlo i'r amgylchedd newydd, i'r amser pan fydd y plentyn wedi'i sefydlu'n llawn fel aelod o'r lleoliad newydd (Fabian a Dunlop 2002). Gall y profiad o drosglwyddiad ar gyfer plentyn sy'n datblygu'n nodweddiadol gynnwys colli ymlyniad at bobl gyfarwydd, ffrindiau, amgylchedd a gwrthrychau o fewn yr

amgylchedd hwnnw; gostyngiad mewn ymdeimlad o berthyn, rôl ac ansicrwydd hunaniaeth; teimlad o gael eich dibrisio; ansicrwydd am y dyfodol (Kennedy et al. 2012). Trosglwyddiad llwyddiannus yw pan mae plentyn yn ymgartrefu'n gyflym gan eu bod yn adnabod yr ysgol, dosbarth a'r athrawes (Ephgrave, 2021). Yn ôl L.Harper mae yn gallu fod yn fuddiol os mae'r disgybl yn gallu cwrdd ar athrawes ac edrych o amgylch y dosbarth fel bydd gan y plentyn syniad o beth sydd i ddod (Harper, 2016). Dangoswyd hyn fod cyfnod o drosglwyddo yn gallu fod yn anodd iawn i unrhyw un, er mwyn gwneud y trosglwyddiad o flwyddyn 1 i flwyddyn 2 yn fwy llyfn I Anwen allwn wneud pethau fel cwrdd ar athro newydd a mynd i ymweld â'r dosbarth newydd er mwyn gwneud I Anwen teimlo'n lawer well amdano'r trosglwyddiad. Bydd yr ymdeimlad hwn o adnabod yr athro a strwythur yr ystafell ddosbarth yn gwella ymdeimlad o sicrwydd, diogelwch a pherthyn mewn plentyn sy'n trawsnewid (Harper,2016). Mae Anwen yn mynd trwyddo drosglwyddiad nawr sef colli Mam-gu, roedd y trosglwyddiad hwn wedi dechrau dros nos gan oedd Mam-gu Anwen wedi marw'n sydyn felly mae angen I Anwen teimlo fel bod hi yn rheolaeth o'r trosglwyddiad nesaf sydd yn digwydd. Gall galar wneud i bopeth deimlo allan o reolaeth ac i blant a phobl ifanc gall deimlo fel pe bai eu byd wedi cael ei droi wyneb i waered (Winston's wish,2023). Mae'n bwysig hefyd yn fy marn i fod yr athrawon dosbarth yn y dosbarth newydd yn hollol ymwybodol o beth mae pob plentyn yn mynd trwyddo er mwyn gallu gweithio a helpu'r plentyn. Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi fwy o ryddid i ysgolion ac athrawon i addasu beth mae'n maen nhw'n dysgu a sut maen nhw'n dysgu er mwyn cyrraedd anghenion y disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r ymgysylltiad rhyngddo'r plant a'r ysgol yn gallu cael i effeithio os nad ydynt yn cael trosglwyddiad esmwyth (Public Health England,2014)

Mae'r holl rhanddeiliaid yn ddarpariaeth Anwen yn deall fod angen cefnogi Anwen trwy'r proses o alaru a'r proses o baratoi am y trosglwyddiad o flwyddyn 1 i flwyddyn 2. Mae'r athro dosbarth a ELSA yr ysgol yn adnabod y pwysigrwydd o gael cefnogaeth a chymorth yn ystod yr amser caled yma ac yn barod i gefnogi Anwen trwy'r trosglwyddiad. Bydd yr ELSA a'r athro dosbarth yn cwrdd cyn y sesiwn cyntaf ac yna ar ôl y sesiwn olaf er mwyn trafod cynnydd Anwen, bydd yr ELSA ac athro dosbarth yn gallu cwrdd am unrhyw adeg i drafod os oes eisiau. Mae athrawon a phersonél ysgol eraill yn ffurfio bondiau cryf trwy eu rhyngweithio â disgyblion, a all fod yn sylfaen ar gyfer system gynhaliol gadarn. Fodd bynnag gallwn ddadlau fod addysgwyr heddiw dim ddigon cymwys i ymdrin â phroblemau galar gyda'u myfyrwyr, er bod gan y digwyddiad cyffredin hwn y potensial i effeithio ar leoliad yr ystafell ddosbarth (Lawrence,2020, Tud 3). Yn fy marn i mae hyn yn wir does dim digon o hyfforddiant na gwybodaeth ar gael i athrawon mae angen fwy o hyfforddiant ar bob aelod o staff er mwyn iddyn nhw ddarparu cymorth a chefnogaeth well i ddisgyblion. Gall ysgolion, fel y man lle mae'r rhan fwyaf o blant yn treulio rhan fawr o'u bywydau bob dydd, chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod anghenion plant mewn

profedigaeth yn cael eu cydnabod ac yr ymatebir iddynt mewn modd priodol, o godi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr ynghylch sut i ymateb pan mae plentyn wedi profi profedigaeth, i gael ei atgyfeirio ar gyfer allgymorth a chymorth arbenigol pan fo plant yn dangos lefelau uchel o drallod (Loughborough University, 2011). Mae'r dystiolaeth bellach y tu hwnt i anghydfod. Pan fydd ysgolion yn cydweithio â theuluoedd i gefnogi dysgu, mae plant yn tueddu i lwyddo nid yn yr ysgol yn unig, ond ar hyd bywyd (Henderson a Berla, 1994, t. 1). Yn ôl Zandvliet et al (2014) mae cynnwys rhieni mewn addysg yn bwysig gan ei fod nhw yn gallu cael syniadau o ysgol ar sut i helpu a chefnogi eu plant. Mae damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner yn awgrymu bod datblygiad unigolyn yn cael ei ddylanwadu gan gyfres o systemau amgylcheddol rhyng-gysylltiedig, yn amrywio o'r amgylchoedd uniongyrchol (e.e., teulu) i strwythurau cymdeithasol eang (e.e., diwylliant) (Guy-Evans, 2023). Mae cydweithio rhwng rhieni a'r ysgol yn hanfodol i lwyddiant a dilyniant Anwen, yn ôl Bronfenbrenner mae datblygiad plentyn yn cael eu dylanwadu gan y perthnasoedd sydd o amgylch y plentyn felly mae hyn yn dangos fod angen i bawb sydd o amgylch Anwen cefnogi hi cymaint a gallent. Bydd Rhieni a Thad-cu Anwen yn cael i wahodd mewn i'r ysgol am y sesiwn cyntaf er mwyn iddyn nhw ddod i adnabod yr ELSA a hefyd i siarad am Anwen a'i theimladau. Bydd rhieni a Thad-cu Anwen yn dod i mewn i'r ysgol ar ddiwedd y sesiynau er mwyn i Anwen dangos y bocs atgofion mae Anwen wedi bod yn creu yn ystod y sesiynau, bydd hyn yn gyfle i gael trafodaeth a hefyd sôn am atgofion. Caiff ei gydnabod yn gyffredinol fod cymorth rhieni'n gallu cael effaith sylweddol ar gyflawniad disgyblion (Estyn, 2018). Problem ag gall codi yw cael y rhieni i fynychu'r sesiynau, gall cymryd rhan mewn digwyddiadau fel cynadleddau rhieni-athrawon gael ei rwystro gan ystod o gyfyngiadau ymarferol megis diffyg cludiant, amserlen waith, neu'r angen am ofal plant (Smith et al, 2011)

I gloi mae trosglwyddiadau yn gallu fod yn hynod o heriol i unrhyw unigolyn. Efallai na fydd plant yn gallu delio â'r emosiynau mawr a all ddod gyda thrawsnewidiadau. (Martinelli, 2023) Mae trosglwyddiadau yn anodd dechrau gydag ac mae rhai plant fel Anwen yn cael heriau ychwanegol fel profiadau newidiol mewn plentyndod sy'n gwneud y trosglwyddiad hwn yn anoddach (Rojas, 2020). Yn ôl Weissberg mae cysylltiad gyda'r cartref yn rhan bwysig o wneud yn siŵr fydd y plentyn yn datblygu'n effeithiol (Weissberg, 2019). Mae rhaid bod rhieni Anwen yn barod i siarad ag i ddarparu cymorth os oes angen ynddo. Rwy'n gobeithio bydd y sesiynau yn helpu Anwen i ddelio a deall galar, dwi hefyd yn gobeithio bydd Anwen yn dod o hyd i lawenydd yn fywyd unwaith eto er mwyn iddi hi ddod a llawenydd i bawb ym mlwyddyn 2 fel oedd hi ym mlwyddyn 1. Dwi hefyd yn gobeithio bydd Anwen unwaith eto yn aelod o'r clwb coginio. Trwy ysgrifennu'r aseiniad yma rwyf wedi dysgu llawer am brofiadau niweidiol yn blentyndod a pa fath o effaith maent yn cael ar bobl ifanc. Yn ystod yr aseiniad yma rwyf hefyd wedi datblygu'n broffesiynol trwy fonitro ac asesu

sut oedd Anwen wedi newid dros hanner tymor roedd rhaid i mi gadw llygad ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ieithyddol Anwen gan roedd Anwen wedi tynnu nôl cymaint. Mae asesu yn broses sydd yn digwydd yn aml er mwyn monitro os ydy'r strategaeth yn effeithiol ac yn gweithio os nad ydynt mai angen addasu'r strategaeth er mwyn cwrdd ag anghenion Anwen. Mae asesu yn safon sac sydd yn dod o dan y safon addysgeg (Llywodraeth cymru,2019). Byddaf yn asesu Anwen i weld os mae hi yn ymateb i'r sesiynau er mwyn asesu os fydd y strategaeth yn effeithiol. Dwi hefyd wedi datblygu'n broffesiynol gan ddwi wedi bod yn ymchwilio strategaethau newydd gallai defnyddio i helpu plant sydd yn galaru, bydd hyn o fudd i mi yn y dyfodol gan ddwi nawr yn fwy gwybodus o sut mae plant yn galaru a beth allai wneud i helpu'r unigolion. Mae'r asesiad yma wedi dangos i mi pa mor bwysig mae cefnogi unigolyn sydd yn alaru os na fydd plentyn yn cael y cymorth a chefnogaeth sydd eisiau gall y plentyn yna cael problemau yn hwyrach yn fywyd. Gall profedigaeth effeithio ar ddatblygiad, a all arwain at anawsterau yn waith yn y dyfodol, mewn gweithgareddau addysgol a gyda pherthnasoedd personol (Brent, Melhem, Masten, Porta, a Payne, 2012) Ni fydd galar byth yn gadael unigolyn felly mae rhaid i'r unigolyn dysgu sut i ddelio a phrosesir galar er mwyn byw bywyd llawn o atgofion.

Er mwyn wella fy natblygiad proffesiynol hoffwn fynychu cwrs trawma a chwrs profiadau niweidiol mewn plentyndod er mwyn i mi ddysgu fwy ac i ddysgu sut gallai cefnogi unigolion yn well. Er mae'r aseiniad yma wedi dysgu lawer i mi mae dal lawer o bethau i mi ddysgu ac i weld er mwyn i mi fod yr athrawes orau gallai fod.

Proffil Anwen

Dyma Anwen. Mae Anwen yn 5 mlwydd oed. |
Mae Anwen yn ddisgybl ym mlwyddyn 1. Mae
gan Anwen un brawd sydd yn 1 mlwydd oed.



Beth mae pobl yn edmygu amdana i?
Mae fy athrawon yn dweud fy mod i'n...

- Helpwr da
- Cwrtais
- Dod â llawenydd i bawb

Mae fy rheulu'n dweud fy mod i'n...

- Swnllyd
- Gofalgar
- Cariadus

Beth sy'n bwysig i mi?

- Chwarae ar y trampolin
- Coginio
- Tynnu lluniau
- Mabli'r ci
- Huw'r crwban
- Mami, Dadi, Mam-gu, Dad-cu a Sam (brawd bach)
- Mynd i'r parc
- Mam-gu a Thad-cu yn pigo fi lan o ysgol

Cryfderau a Meysydd i ddatblygu

Datblygiad corfforol

- Sgiliau echddygol manwl yn datblygu'n dda e.e.. defnyddio pensil a siswrn
- Angen datblygu ei sgiliau echddygol bras e.e.. neidio a throï

Datblygiad Gwybyddol

- Yn canolbwyntio yn y dosbarth
- Angen dysgu i beidio torri ar draws pan mae aelod arall o'r dosbarth yn siarad

Datblygiad Emosiynol

- Ymgysylltu'n aml yn drafodaethau dosbarth ac yn mynegi barn
- Angen dysgu i ddelio efo dadlau efo aelod o'r dosbarth yn well

Datblygiad Ieithyddol

- Mae Anwen yn defnyddio lawer o eirfa wahanol
- Angen datblygu ei sgiliau ddarlennu

Datblygiad Cymdeithasol

- Mae Anwen yn hapus i chwarae a chymysgu efo unrhyw aelod o'r dosbarth
- Angen dysgu i rannu tegau efo'i ffrindiau

Blwyddyn 1– Tymor y Gaeaf, Hydref a Gwanwyn

Roedd Anwen yn ymgysylltu ym mhob agwedd o fywyd ysgol yn flwyddyn 1. Roedd Anwen yn blentyn hynod o hapus a oedd yn mwynhau tynnu lluniau, lliwio a sgwrsio gyda'i chyfoedion. Roedd Anwen yn artist arbennig a oedd yn creu darnau celf sydd uwchben a thu hwnt i'r cyffredin. Roedd Anwen yn ddisgybl sy'n rhagori yn wersi iaith a chelfyddydau mynegiannol. Roedd Anwen o hyd yn barod i ddysgu ac i helpu allan yn y dosbarth. Roedd Anwen yn mwynhau siarad efo aelodau o staff wrth wneud gwaith. Roedd Anwen yn aelod o'r clwb cŵl coginio, roedd hi'n mwynhau mynychu'r clwb a chreu'r holl fwyd blasus.


Blwyddyn 1– Tymor yr Haf

Ers i Anwen dychwelyd i'r ysgol yn fis Mai, mae Anwen i weld yn drist ac yn dawel. Nid ydy Anwen eisiau ymwneud ac unrhyw bynciau, hyd yn oed gwersi celfyddydau mynegiannol. Mae Anwen dal i dynnu lluniau ond dydy'r lluniau ddim yn hapus na liwgar. Mae Anwen yn tueddu i fod yn dawel iawn o amgylch pawb yn y dosbarth ac yn hynod o drist ar ddiwedd y dydd, nid ydy Anwen yn ymgysylltu lawer efo'i ffrindiau amser chwarae. Mae Anwen yn ymateb i gwestiynau efo un neu ddau air, ond nid yw'n barod i sgwrsio na thrafod. Ers i Anwen dychwelyd mae Anwen yn gofyn i Miss Jones os mae hi yn gallu mynd i mewn i'r babell dawel i gymryd ychydig o amser tawel iddi'i hun. Nid ydy Anwen yn mynychu'r clwb cŵl coginio rhagor.

Ar ôl cwrrd â rhieni Anwen i sôn am hwyliu ac ymddygiad Anwen mae'n amlwg fod digwyddiad enfawr wedi bod yn fywyd Anwen ar ôl marwolaeth sydyn eu Mam-gu dros hanner tymor. Mae'n hynod o bwysig cynnwys ymyriadau a gweithdrefnau cymorth ar gyfer Anwen ar yr adeg yma. Os na chaiff Anwen gymorth yn yr amser anodd yma gall Anwen golli meysydd allweddol o waith academiaidd a gall effeithio arni yn y dyfodol. Mae angen cefnogaeth arni wrth alaru am eu Mam-gu. Gall cyflwyno ymyriad penodol cefnogi Anwen i ddeall pam mae hi yn teimlo fel hyn, i ddeall beth yw galar, i siarad eu Mam-gu ac i gyflwyno strategaeth ymdopi, os yw'n bosib gall cwrrd â phlentyn sydd efallai yn mynd trwyddo sefyllfa debyg. Mae rhieni Anwen yn poeni amdani hi ac yn becsu sut bydd Anwen yn delio efo galaru.

Tra bod Miss Jones yn myfyrio ar sut gall gefnogi anghenion unigol Anwen, mae hi hefyd yn ystyried prif nodweddion o ddosbarth derbyn. Mae'r wybodaeth yma wedi arddangos yn dabl sy'n ei gwneud yn haws i ddangos cymhariaeth o'i ymddygiad a'i ymgysylltiad.

Datblygiad	Blwyddyn 1– Gaef, Hydref a Gwanwyn	Blwyddyn 1– Mai 2023
Emosiynol	- Ymgysylltu yn aml yn drafodaethau dosbarth - Ymgysylltu efo pawb yn y dosbarth - Gweithgar iawn yn ystod amser chwarae/ amser aur - Mae Anwen yn gallu mynd yn drist os mae yn dadlau efo aelod o'r dosbarth ond dydy hyn ddim yn aml	- Yn dangos arwyddion o dynnu'n ôl - Dydy Anwen ddim i weld yn hapus yn y dosbarth - Yn gofyn i fynd i mewn i'r babell dawel yn aml - Lefel isel o les - Yn edrych yn fwy hapus y tynnu lluniau
Ieithyddol	- Yn cyfathrebu efo aelodau staff wrth wneud gwaith - Yn sgwrsio a chyfathrebu efo'i chyfoedion wrth dynnu lluniau - Defnyddio lawer o eirfa wahanol	- Dim yn siarad llawer - Yn dawel yn y dosbarth ac yn ateb cwestiynau efo un neu ddau air
Cymdeithasol	- Mynychu clwb cŵl coginio - Roedd Anwen yn chwarae efo unrhyw un yn y dosbarth - Roedd Anwen yn hapus ac yn falch i ddangos eu gwaith i'w cyfoedion	- Ddim yn mynychu clwb cŵl coginio - Yn gofyn i fynd i mewn i'r babell dawel yn lle mynd i chwarae - Dangos gwaith ond ddim yn dangos eu bod yn hapus neu'n falch



Cynllun Hanner Tymor		
	Ffocws y gweithgaredd o dan arweiniad oedolyn	Cysylltiad â sgilliau'r cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2022)
Wythnos 1	Ffocws; Cwrdd - Cyflwyniad -Cwrdd â'r plentyn -Siarad yn gyffredinol -Dod i nabod ein gilydd -Pam i ni yn gwneud hyn? Beth i ni yn gallu helpu ti gyda? Ble bydd hyn yn cymryd lle? Pwy fyddwn yn gweithio gyda? Pryd bydd y sesiynau yn cymryd lle? -Rhieni a Thad-cu yn dod i'r ysgol am y sesiwn os maen nhw angen	Maes dysgu a phrofiad leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
Wythnos 2	Ffocws; Siarad amdano galar – beth yw galar? -Cyd-destun o'r golled -Sut wyt ti'n teimlo? – Meddwl a thrafod pam wyt ti'n teimlo fel hyn -Ydy hyn yn arferol? Pam mae hyn yn arferol? -Mynd dros y dasg a sôn pwy gall helpu Anwen -Tasg – Byddwn yn gofyn i Anwen tynnu llun ohoni hi a'i fam-gu ac yna ysgrifennu o amgylch eu teimladau a phethau sydd yn poeni hi (Bydd cymorth oedolyn i ysgrifennu) -Tasg 2 – Darllen stori amdano blentyn sy'n galaru fel 'Grandad's camper' gan Harry Woodgate	Maes dysgu a phrofiad -leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu -Y celfyddydau mynegiannol Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Cyfranwyr mentrus a chreadigol Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgilliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion culfrydig a chreadigol
Wythnos 3	Ffocws; Siarad am atgofion -Siarad a thrafod am atgofion sydd gan Anwen o Fam-gu -3 peth oedd Anwen yn gwneud efo Mam-gu a oedd yn wneud hi'n hapus – sut maen nhw yn wneud iddi hi deimlo nawr -Ydy o yn iawn iddi hi deimlo'n drist wrth siarad am atgofion Tasg – Byddwn yn gofyn i Anwen tynnu llun ohoni hi a'i fam-gu ac yna ysgrifennu o amgylch eu hoff bethau am Fam-gu / pethau i wneud efo Mam-gu. (Bydd cymorth oedolyn i ysgrifennu)	Maes dysgu a phrofiad -leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu -Y celfyddydau mynegiannol Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Cyfranwyr mentrus a chreadigol Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn

		dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion culfrydig a chreadigol
Wythnos 4	Ffocws; Llenwi llyfr colled - Llenwi llyfr colled -Pam dwi'n teimlo fel hyn? -Bydd y teimladau yn newid? -Sut dwi'n gallu cofio Mam-gu - Tasg – Llyfr Mam-gu a fi- Darllen trwy'r llyfr a llenwi rhannau sydd yn ymwneud ar blentyn	Maes dysgu a phrofiad -Iechyd a lles -leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar rin hiechyd meddwl a'n lles emosiynol Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
Wythnos 5	Ffocws; Creu Bocs atgofion -Bydd angen trafod a pharatoi efo rhieni o flaen llaw -Trafod yr holl luniau ac atgofion -Trafod y cwestiynau Beth wyt ti yn gallu gweld? Sut mae yn gwneud i ti teimlo? -Egluro fod y bocs yma yn gallu cael i gadw am byth i gofio Mam-gu -Gall y bocs atgofion dod a chysur i Anwen	Maes dysgu a phrofiad -Iechyd a lles -leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar rin hiechyd meddwl a'n lles emosiynol Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
Wythnos 6	Ffocws; Cwrdd efo Mam a Dad -Gofyn i rieni a Thad-cu Anwen ddod i mewn am sesiwn -Dangos y bocs atgofion i'r rhieni a thrafod y cynnwys er mwyn i Anwen rhannu eu teimladau -Trafod gydag Anwen fod pobl yma i helpu a bod pawb yma -Tasg- Dangos y bocs atgofion i fam a dad a thrafod yr holl bethau sydd yn y bocs	Maes dysgu a phrofiad -Iechyd a lles -leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu Pedwar Diben Unigolion iach a hyderus Datganiad o'r hyn sy'n bwysig Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar rin hiechyd meddwl a'n lles emosiynol



		Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
--	--	---

Monitro ac asesu

- Bydd y sesiynau yn cael i gynnal gan ELSA yr ysgol
- Er mwyn monitro ac asesu cynnydd Anwen fyddwn yn cynnal cyfweiliad bach un yn sesiwn cyntaf y tymor ac un yn sesiwn olaf y tymor. Byddaf yn gofyn cwestiynau fel Sut wyt ti'n teimlo? Beth yw galar? Beth wyt ti'n gwneud pan wyt ti'n teimlo yn drist
- Byddaf hefyd yn asesu ambell un o'r gweithgareddau fel y llyfr colled
- Bydd y sesiynau a'r cymorth yma yn parhau ar ôl y tymor os fydd angen cymorth ar Anwen |

Cyfeirnod

Alberta Family Wellness. (2013) *How brains are built: The Core story of Brain Development* [Video] . Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=LmVWOe1ky8s> (Cyrchwyd 25 Hydref 2023)

Allender, S. A. (2015). *Childhood and the impact of death of a loved one on behavioral functioning*. Traethawd PhD. Fielding Graduate University. Ar gael yn <https://www.proquest.com/docview/1713688443?pq-origsite=gscholar&fromopenview=true> (Cyrchwyd 25 Hydref 2023)

Bandura, A. A Walters, R. H. (1977) *Social learning theory*. Prentice Hall: Englewood Cliffs. (Cyrchwyd: 26 Hydref 2023)

BERA, (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Bowlby, J. (1960). *Grief and mourning in infancy and early childhood*. *Psychoanalytic Study of the Child*, 15, 9–52. Ar gael yn: https://www.sas.upenn.edu/~cavitch/pdf-library/Bowlby_Grief.pdf (Cyrchwyd: 26 Hydref 2023)

Brent, D. A., Melhem, N. M., Masten, A. S., Porta, G., & Payne, M. W. (2012). *Longitudinal effects of parental bereavement on adolescent developmental competence*. *Journal of Clinical Child and Adolescent Psychology*. Ar gael yn: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3493857/> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2023)

Cacciatore, J. (2017). *Bearing the unbearable: Love, loss, and the heartbreaking path of grief*. Beau-mont, CA: Wisdom Press.

Child Bereavement UK. (2019) *Childs understanding of death at different ages*. Ar Gael yn: <https://www.childbereavementuk.org/childrens-understanding-of-death-at-different-ages#:~:text=Babies%20and%20young%20children%20have,nourishment%20on%20a%20daily%20basis>. (Cyrchwyd: 25 Hydref 2023)

Child bereavement UK. (2021) *How children and young people grieve*. Ar gael yn: <https://www.childbereavementuk.org/information-how-children-grieve#:~:text=Children%20are%20naturally%20good%20at,to%20believe%20children%20are%20unaffected.> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Child Bereavement UK. (2019) *Supporting bereaved children and young people*. Ar gael yn: <https://www.childbereavementuk.org/supporting-bereaved-children-and-young-people#:~:text=Children%20and%20young%20people%20grieve,they%20need%20in%20their%20grief.> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Child bereavement uk. (2019) *When a grandparent dies*. Ar Gael yn: <https://www.childbereavementuk.org/information-when-a-grandparent-dies#:~:text=You%20can%20also%20call%20our,Live%20Chat%20on%20our%20website.> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Dyregrov, A. (2004). *Educational consequences of loss and trauma*. Educational and Child Psychology, 21(3), tud.77-84. Ar gael yn: <https://doi.org/10.53841/bpsecp.2004.21.3.77> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Ephgrave, A. (2021) *Transition to Reception*. Ar gael yn: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/transition-to-reception> (Cyrchwyd: 23 Hydref 2023)

Estyn. (2018) *Mae ymglymiad rhieni gydag ysgolion yn helpu disgyblion i gyflawni*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/mae-ymglymiad-rhieni-gydag-ysgolion-yn-helpu-disgyblion-i-gyflawni?_ga=2.120282056.1137422366.1698675665-1209073540.1698675665 (Cyrchwyd: 29 Hydref 2023)

Fabian, H., & Dunlop, A. (2002). *Transitions in the early years*. New York: RoutledgeFalmer.

Fauth, B., Thompson, M. and Penny, A. (2009) *Associations between childhood bereavement and children's background, experiences and outcomes*. Secondary analysis of the 2004 Mental Health of Children and Young People in Great Britain data. London: NCB

GIG Cymru. (2020) *Adverse childhood experience and ACEs*. Ar gael yn: <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/06/PHWBangor-ACEs-Diabetes-Factsheet-5-1.pdf> (Cyrchwyd: 22 Hydref 2023)

Green, S. (2023) *10 barriers to learning and how to overcome them*. [Blog] Ar Gael yn: <https://www.ispringsolutions.com/blog/barriers-to-learning#:~:text=A%20barrier%20to%20learning%20is,be%20caused%20by%20various%20factors>. (Cyrchwyd: 30 Hydref 2023)

Guy-Evans, O. (2023) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/bronfenbrenner.html> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2023)

Harper, L.J. (2015) 'Supporting young children's transitions to school: Recommendations for families', *Early Childhood Education Journal*, 44(6), tud.653-659. Ar gael yn: <https://link.springer.com/article/10.1007/s10643-015-0752-z> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2023)

Henderson, A. T., & Berla, N. (1994). *A new generation of evidence: The family is critical to student achievement*. Columbia, MD: National Committee for Citizens in Education.

Holland, J. (2004) *'Lost for Words' in Hull. Pastoral Care in Education*. Ar gael yn: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/j.0264-3944.2004.00309.x> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2023)

Hyb ACE Cymru, (2022), *Ynglŷn ag ACE a dull sy'n ystyriol o drawma*. Ar gael yn: <https://hybacecymru.com/beth-yw-aces/> (Cyrchwyd 31 Hydref 2023)

J.Rojas, (2020), *External transitions Early Care & Education Settings*, Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED608974.pdf> (Cyrchwyd 26 Hydref 2023)

Katherine Martinelli, (2023), *Why Do Kids Have Trouble With Transitions?*, Ar Gael yn: <https://childmind.org/article/why-do-kids-have-trouble-with-transitions/#:~:text=Kids%20may%20not%20be%20able,with%20emotional%20or%20developmental%20issues>. (Cyrchwyd 22 Hydref 2023)

Kennedy, E., Cameraon, R. J., & Green, J. (2012). *Transitions in the early years: Educational and child psychologists working to reduce the impact of school culture shock*. *Educational and Child Psychology*, 29(1), 19–31.

Llywodraeth Cymru. (2021) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (Cyrchwyd 24 Hydref 2023)

Llywodraeth Cymru, (2019) *Iechyd a lles*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/> (Cyrchwyd 24 Hydref 2023)

Loughborough University, (2011) *Childhood bereavement, a rapid literature review*. Ar Gael yn: http://www.going4growth.com/downloads/Childhood_bereavement_literature_review.pdf (Cyrchwyd 24 Hydref 2023)

NHS Cymru (2016) *Adverse Childhood Experiences*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/ACE%20Chronic%20Disease%20report%20%289%29%20%282%29.pdf> (Cyrchwyd 24 Hydref 2023)

Pennacchia, J. Jones, E. a Aldridge, F. (2018) *Barriers to learning for disadvantaged groups*. Ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/735453/Barriers to learning - Qualitative report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/735453/Barriers_to_learning_-_Qualitative_report.pdf) (Cyrchwyd 27 Hydref 2023)

Perry, B. D., & Rosenfelt, J. L (2013). *A child's loss: Helping children exposed to traumatic Death* (The Child Trauma Academy Press Caregiver Series Book 1). Houston, TX: Child Trauma Academy Press

Public Health England (2014) *Improving the home to school transition*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/355769/Briefing1b_Home_to_school_health_inequalities.pdf (Cyrchwyd 27 Hydref 2023)

Schwarz, E. D., & Perry, B. D. (1994). *The post-traumatic response in children and adolescents. Psychiatric Clinics of North America*. Ar gael yn: <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0193953X18301175> (Cyrchwyd 27 Hydref 2023)

Smith, J., Wohlstetter, P., Kuzin, C. A., & De Pedro, K. (2011). *Parent involvement in urban charter schools: New strategies for increasing participation. School Community Journal*, 21(1), 71–94. Ar gael yn: <http://www.schoolcommunitynetwork.org/SCJ.aspx> (Cyrchwyd 29 Hydref 2023)

S.T.Lawrence, (2020) *The grieving child in the classroom*, Oxon: Routledge

Stuber, M. L., & Mesrkhani, V. H. (2001). "What do we tell the children?": Understanding childhood grief. *Western Journal of Medicine*. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/12094277_What_do_we_tell_the_children_Understanding_childhood_grief (Cyrchwyd 29 Hydref 2023)

Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Massachusetts: Harvard University Press.

Weissberg, R. P. (2019) 'Promoting the Social and Emotional Learning of Millions of School Children', *Perspectives on psychological Science*, 14(1), tud.65-69. Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/1745691618817756> (Cyrchwyd 29 Hydref 2023)

Winston's wish, (2023) *Helping a child or young person with their grief and mental health* Ar gael yn: <https://www.winstonswish.org/helping-child-grief-mental-health/> (Cyrchwyd 27 Hydref 2023)

Zandvliet, D. et al. (2014) *Interpersonal relationships in education: From theory to practice*. Rotterdam: Sense publishers.

Zotovitch K (2020) *Helping children deal with loss through the journaling process*. Ar gael yn: <https://caregiver.com/articles/journaling-process/#> (Cyrchwyd 29 Hydref 2023)